# Ymgynghoriad ar 24 o geisiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid ac un cais am fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUT) i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 22 Ebrill 2024
Dyddiad cau: 17 Mehefin 2024

## Crynodeb o ymatebion

Crynodeb o ymatebion rhanddeiliaid: Ymgynghoriad ar 24 o geisiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid ac un cais am fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUT) i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid (tymor yr hydref 2024)

## I bwy bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

- gwneuthurwyr, mewnforwyr/allforwyr a manwerthwyr bwyd anifeiliaid
- pob prynwr bwyd anifeiliaid, gan gynnwys ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd ac anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd
- cyrff masnach sy'n cynrychioli rhanddeiliaid mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, amaethyddiaeth a'r amgylchedd
- undebau llafur sy'n cynrychioli rhanddeiliaid yn y diwydiant ffermio
- sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr mewn cadwyni bwyd a chadwyni bwyd anifeiliaid
- Awdurdodau Gorfodi

Mae rhestr o bartïon sydd â buddiant wedi'i chynnwys yn Atodiad A y pecyn ymgynghori.

## Pwnc yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â 24 o geisiadau am ychwanegion bwyd anifeiliaid ac un cais PARNUT i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid i'w hawdurdodi ym Mhrydain Fawr.

Yn ogystal â'r ymgynghoriad hwn, rydym wedi cyhoeddi dogfen ar y cyd rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban (FSS), sy'n cynnwys argymhellion o ran rheoli risg ac asesiadau diogelwch ar gyfer y ceisiadau.

PDF

Gweld FSA/FSS risk management recommendations on 24 feed additives applications and one application for feed as PDF(Open in a new window) (2.27 MB)

## Asesiadau diogelwch yr ASB/FSS

Asesiad Diogelwch RP24-25-26 *Saccharomyces Cerevisiae* (MUCL39885)

Asesiad Diogelwch RP29 *Pediococcus Acidilactici* (CNCM I-4622)

Asesiad Diogelwch RP140-141-142-284 Sodiwm Monensin

Asesiad Diogelwch RP185 6-Ffytas o *Komagataella Phaffii* (DSM 23036)

Asesiad Diogelwch RP222 Burum wedi'i seleneiddio *Saccharomyces Cerevisiae* (CNCM I-3060), sy'n anactifedig

Asesiad Diogelwch RP641 *Bacillus Velezensis* (DSM 15544)

Asesiad Diogelwch RP658 Lleihau'r Risg o Dwymyn Llaeth a Hypocalcaemia Isglinigol mewn Gwartheg Godro

Asesiad Diogelwch RP1105 L-Histidin

Asesiad Diogelwch RP1125 L-Tryptophan

Asesiad Diogelwch RP1126 L-Lysin Sylffad

Asesiad Diogelwch RP1198 Hydrocsyanisol wedi'i fwtyleiddio (BHA)

Asesiad Diogelwch RP1199 L-Lysin

Asesiad Diogelwch RP1200 Deusodiwm 5'-Guanylad

Asesiad Diogelwch RP1259 Muramidas

Asesiad Diogelwch RP1349 Fitamin K1

Asesiad Diogelwch RP1386 Celad Copr o Analog Hydrocsi o Fethionin

Asesiad Diogelwch RP1387 Celad Manganîs o Analog Hydrocsi o Fethionin

Asesiad Diogelwch RP1388 Celad Sinc Celad o Analog Hydrocsi o Fethionin

Asesiad Diogelwch RP1591 *Fumonisin Esteras*

Mae RP1654 yn gofyn am newid gweinyddol o ran deiliad yr awdurdodiad yn unig, felly nid oes angen asesiad diogelwch.

## Diben yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi'r cyfle i safbwyntiau rhanddeiliaid gael eu cyflwyno ar awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid a PARNUTs. Bydd yr ASB yn ystyried adborth gan randdeiliaid, er mwyn hysbysu gweinidogion Cymru a Lloegr (gan roi gwybod i'r Gweinidog Iechyd yng Ngogledd Iwerddon) cyn iddynt wneud penderfyniad.

Rydym yn ceisio adborth ar y telerau awdurdodi arfaethedig, ein hasesiad o'r effeithiau posib a nodir yn y pecyn ymgynghori, ac unrhyw dystiolaeth bellach a allai fod gennych ar effeithiau

ychwanegol y dylem eu hystyried.

Yn yr un modd, mae FSS yn cyhoeddi ymgynghoriad cyfochrog er mwyn llywio penderfyniad Gweinidogion yn yr Alban.

## Pecyn ymgynghori

Mae'r pecyn ymgynghori hwn yn darparu'r wybodaeth gefndirol a'r manylion y bydd angen i chi eu gwybod er mwyn ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn: Ymgynghoriad ar 24 o geisiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid ac un cais am fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUT) i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid.

## Sut i ymateb

Dylid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn trwy'r arolwg ar-lein. Fel arall, gallwch e-bostio ymateb i:

- **E-bost:** RPconsultations@food.gov.uk
- **Enw:** Y Tîm Cymeradwyo Cynhyrchion Rheoleiddiedig
- **Is-adran/Cangen:** Gwasanaethau Rheoleiddiedig

Os ydych yn ymateb trwy e-bost, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli), ac ym mha wlad rydych wedi'ch lleoli.

## Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

O fewn tri mis ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn anelu at gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a chynnwys dolen iddo ar y dudalen hon.  Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein Hysbysiad preifatrwydd ynghylch ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Fawrhydi.?Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.